

Canllaw arfer da: gwarchod ystumod yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

Fersiwn 1.0 Mai 2026

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** i chi gymryd [mesurau ataliol i warchod ystumod](#)
- **dylech** ddilyn cymaint o'r [pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i ystumod](#) ag y gallwch

Cyflwyniad

Mae ystumod coetir yng Nghymru yn grŵp amrywiol ac yn ecolegol bwysig, ac mae pob un o'r 14 rhywogaeth o ystumod sy'n bridio a geir yng Nghymru yn defnyddio cynefinoedd coetir ar gyfer clwydo, fforio neu gymudo. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau cyffredin fel yr ystum lleiaf, yr ystum mawr a'r ystum hirglust, a rhai o'n rhywogaethau prinnaf a all fod yn ddibynnol ar goetiroedd fel ystum Leisler, ystum Bechstein a'r ystum pedol lleiaf.

Un ystum coetir arbenigol o'r fath yw'r ystum du (*Barbastella barbastellus*). Mae'n un o'r mamaliaid prinnaf yng Nghymru a'r DU. Mae ei statws yng Nghymru wedi'i ddsbarthu fel dan fygythiad. Mae'r rhywogaeth wedi'i dosbarthu'n eang, ond yn wasgaredig, ar draws y De, y Gororau ac, o bosibl, rhannau o'r Gogledd-orllewin. Mae'n debygol ei bod wedi'i than-gofnodi'n sylweddol oherwydd ei natur swil a'i dibyniaeth ar goetiroedd sydd anaml yn cael eu harolygu am ystumod. Mae ymdrechion cadwraeth yn canolbwyntio ar warchod a gwella cynefinoedd coetir addas, monitro cytreffi hysbys, a chwilio am gytreffi newydd a allai gael eu colli cyn i ni wybod eu bod nhw'n bodoli.

Mae ystumod sy'n clwydo mewn coed yn clwydo'n rheolaidd iawn ac mae angen amrywiaeth eang o glwydfannau arnynt sy'n darparu amrywiol amodau microhinsoddol ac y gellir eu defnyddio ar wahanol adegau o'r flwyddyn at wahanol ddibenion. Am y rheswm hwn, mae cynnal clwydfannau posibl yn bwysig iawn.

Ni fydd gan bob coetir yr un potensial i gynnal clwydfannau ystumod. Gellir disgwyl i blanhigfeydd conwydd ucheldirol fod â photensial is na choetiroedd llydanddail iseldirol aeddfed. Mae coed iau hefyd yn llai tebygol o fod â nodweddion datblygedig sy'n gallu cynnal clwydfannau ystumod.

Fodd bynnag, waeth beth fo'i hoedran, rhywogaeth neu leoliad, bydd gan unrhyw goeden sy'n cynnwys craciau, holltiadau, tyllau cnocell y coed, tyllau pydredd, trawstiau perygl, rhisgl rhydd neu orchudd eiddew â choesyndau trwchus y potensial i gynnal clwydfan.

Pan gânt eu canfod mewn lleoliad coetir, mae adeileddau fel adeiladau, mwyngloddiau neu bontydd, neu nodweddion naturiol fel ogofâu, wynebaw creigiau a chlogwyni sy'n cynnwys craciau, agennau neu fylchau tywyll agored, yn cynnig gwerth uchel iawn posibl i ystlumod. Mae'r rhain yn aml yn darparu clwydfannau delfrydol o fewn cynefin fforio o werth uchel ac maent yn debygol iawn o gael eu defnyddio gan ystlumod.

Mae cynnal cyfaint coetir a chysylltedd clwydfannau yn hanfodol ar gyfer cadwraeth ystlumod, yn enwedig ger clwydfannau arwyddocaol. Mae angen digon o goetir ar ystlumod benyw sy'n bridio i'w galluogi i fwydo eu hepil yn agos at glwydfannau mamolaeth, ac mae angen coetir ar ystlumod hefyd i ganiatáu iddynt fforio yn y gaeaf ar nosweithiau cynhesach yn agos at glwydfannau gaeafgysgu.

Mae coetir hefyd yn bwysig ar gyfer 'cysylltedd tirwedd', gan ganiatáu i ystlumod symud trwy'r dirwedd ehangach wrth deithio rhwng clwydfannau neu ardaloedd fforio. Fel arfer, bydd dylunio eich llennyrch a chynllunio gwaith torri coed i gynnal cysylltedd cynefinoedd yn unol â chanllawiau Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn cyflawni hyn, ond weithiau efallai y bydd angen i chi fynd ychydig ymhellach, yn enwedig os yw safleoedd yn agos at SoDdGA neu ACA a ddynodwyd ar gyfer ystlumod.

Sut mae ystlumod yn cael eu gwarchod?

Mae pob ystum yng Nghymru yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi weithio mewn ffordd sy'n osgoi effeithio ar ystumod i'r graddau y byddai'n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu'n fwriadol, neu eu haflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid, yn enwedig os yw'n effeithio'n sylweddol arnynt neu'n amharu ar eu gallu i oroesi, bridio neu aeafgysgu.

Gallai difrodi neu ddinistrio clwydfannau ystumod fod yn drosedd hyd yn oed os nad ydych chi'n ei wneud yn fwriadol. Gallai hyn fod drwy niwed uniongyrchol, fel torri coeden sy'n cynnwys clwydfan, neu drwy niwed anuniongyrchol, fel torri'r holl goed o amgylch y glwydfan, neu'r rhan fwyaf ohonynt, fel bod yr amodau hinsoddol lleol yn newid ac nad ydynt bellach yn ffafriol, er nad yw'r glwydfan wedi'i difrodi'n ffisegol. Felly mae'n hanfodol eich bod chi'n gallu dangos diwydrwydd dyladwy wrth wirio am glwydfannau ac yn eu gwarchod.

Mae clwydfannau a ddefnyddiwyd yn flaenorol nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd hefyd wedi'u gwarchod, os oes tebygolrwydd rhesymol y cânt eu defnyddio eto yn y dyfodol.

Gallwch gymryd yn ganiataol bod ystumod yn defnyddio eich coetir at ryw ddibenion a'u bod yn debygol o ddefnyddio unrhyw goed addas fel clwydfannau, o leiaf fel mannau gorffwys dros dro. Mae angen cynnal a chadw clwydfannau posibl er mwyn sicrhau nad oes unrhyw golled o swyddogaeth ecolegol o ganlyniad i'ch gweithrediad. Fodd bynnag, mewn rhai coetiroedd efallai na fydd yn ymarferol eu cadw i gyd. Yn yr achosion hyn, dylech gadw cymaint â phosibl a sicrhau bod digon ar ôl i ganiatáu i ystumod barhau i ddefnyddio'r ardal.

Os na allwch osgoi gwneud rhywbeth a fyddai'n achosi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd CNC yn gallu rhoi trwydded i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith yn

gyfreithlon. Dim ond os ydym yn hyderus nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd yn niweidio statws cadwraeth ffafriol y rhywogaeth y gallwn wneud hynny. Dim ond fel dewis olaf y gellir rhoi trwyddedau.

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel canllaw o dan baragraff 43(9)(b) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn golygu bod rhaid i lys ei ystyried mewn achosion sy'n ymwneud â throeddau aflonyddu ar ystlumod, neu ddifrodi a dinistrio eu safleoedd bridio neu eu manau gorffwys.

A yw ystlumod yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw, [Rhywogaethau gwarchoddedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru](#), sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

Gwirio am gofnodion

Dylech wirio am gofnodion o glwydfannau ystlumod yn eich coetir, neu'n agos ato, a gwirio a yw eich coetir o fewn 250 metr i safle dynodedig (SoDdGA neu ACA) a hysbysebwyd ar gyfer ystlumod. Dylech nodi unrhyw ddata lleoliad, disgrifiadau, a'r rhywogaeth o ystlumod y mae'r cofnodion yn ymwneud â hi.

Os ydych chi wedi gwneud cais am drwydded torri coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion fel rhan o'r broses ac efallai y bydd yn ychwanegu gwybodaeth neu amod amgylcheddol at eich trwydded os canfyddir cofnodion o ystlumod. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr amod hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw arfer da hwn.

Arolwg ar droed

Nid yw lleoliadau'r rhan fwyaf o glwydfannau ystlumod yn hysbys. Felly, cyn ymgymryd ag unrhyw waith, mae angen i chi wirio'ch coetir am glwydfannau, neu glwydfannau posibl, yn ystod eich arolwg ar droed, hyd yn oed os nad oes unrhyw gofnodion o ystlumod.

Os ydych chi'n gwybod bod gennyh chi glwydfannau ystlumod yn eich coetir, bydd yn arbennig o bwysig bod gan yr unigolyn sy'n gwneud yr arolwg ar droed ddigon o gymhwysedd sy'n benodol i'r rhywogaeth.

Cyn i chi fwrw ymlaen, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. P'un a yw eich ardal waith y tu fewn i **safle gwarchoddedig a ddynodwyd ar gyfer ystlumod**, neu o fewn 250 metr iddo.
2. Lleoliad unrhyw **glwydfannau ystlumod hysbys** neu **dybiedig** yn eich ardal waith, neu o fewn 20 metr iddi.
3. Lleoliad unrhyw goed yn eich ardal waith a **allai fod yn glwydfannau ystlumod**.

4. P'un a oes cofnodion, neu dystiolaeth arall, o glwydfannau mamolaeth neu glwydfannau gaeafgysgu'r ystum pedol mwyaf, yr ystum pedol lleiaf neu'r ystum du o fewn 250 metr i'ch ardal waith.

Os yw clwydfan bosibl yn ymddangos yn addas iawn (er enghraifft, adeilad neu ogof) neu os oes unrhyw arwyddion o ddefnydd, yr opsiwn mwyaf diogel yw naill ai cymryd dull rhagofalus a'i drin fel clwydfan tybiedig neu drefnu arolwg gan arbenigwr ystumod profiadol.

Os byddwch chi'n canfod bod cofnod hanesyddol o glwydfan ystumod yn ymwneud â choeden neu adeiledd nad yw'n amlwg ar y ddaear mwyach, neu un sydd wedi colli unrhyw botensial fel clwydfan ystumod yn amlwg, efallai y byddwch chi'n gallu diystyru'r rhain. Fodd bynnag, er mwyn eich amddiffyn eich hun, dylech gofnodi'r dystiolaeth yn ofalus cyn i chi wneud y gwaith. Os na wnewch chi hyn, efallai na fyddwch yn gallu amddiffyn eich penderfyniad os cewch chi eich herio. Os oes gennych amod trwydded cwmpo coed sy'n ymwneud â chofnod o glwydfan nad yw'n bodoli mwyach, bydd angen i chi gysylltu â'r tîm trwyddedu coedwigoedd.

Mesurau ataliol i amddiffyn ystumod

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn y canllaw arfer da hwn i glynu wrth y gyfraith, **rhaid** i chi lynu wrth y mesurau ataliol canlynol o leiaf.

Os na allwch ddilyn y mesurau hyn, bydd angen i chi gymryd cyngor gan ecolegydd cymwys ynghylch a oes mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi weithio heb gyflawni trosedd. Fel dewis olaf, efallai y bydd angen i chi ystyried gwneud cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o ystumod yn annisgwyl yn ystod unrhyw waith, dylai'r gwaith ddod i ben a dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Os ydych chi eisoës yn gweithredu o dan drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhaid i chi barhau i ddilyn ei thelerau ac amodau.

Ar gyfer pob coetir, **rhaid glynu wrth** y mesurau ataliol hyn:

1. Clwydfannau ystumod hysbys neu dybiedig

- Ni ddylid difrodi na dinistrio'r clwydfan.
- Ni ddylid tarfu ar ystumod yn y clwydfan.
- Rhaid cadw llain glustogi o 20 metr o leiaf i atal y gwynt o amgylch y clwydfan a pheidio â tharfu arni.
- Ni ddylid gadael clwydfannau ar eu pen eu hunain o fewn ardal fawr lle mae'r coed wedi'u llwyrddorri. Cadwch goridorau â llystyfiant o goed neu brysgwydd sy'n cysylltu ag ardaloedd tawel pe bai angen i ystumod groesi mwy na 50 metr o goed sydd wedi'u llwyrddorri.

2. Clwydfannau posibl

- Rhaid i chi gadw cynifer o glwydfannau posibl ag y bo modd, yn ddelfrydol gyda llain glustogi o 20 metr. Mae hyn yn golygu:
 - Os mai dim ond **ychydig o glwydfannau posibl** sydd (megis coed hynod neu bren marw sy'n sefyll o fewn planhigfa gonwydd a reolir), rhaid i chi eu cadw i gyd, oherwydd y byddai colli unrhyw rai ohonynt yn debygol o effeithio ar swyddogaeth ecolegol y coetir ac yn debygol o arwain at drosedd.
 - Mewn coetiroedd lle mae **toreithrwydd o glwydfannau posibl** (fel y gall fod mewn coetir llydanddail neu goetir cymysg aeddfed), mae'n annhebygol y byddai colli rhai ohonynt yn lleihau'r swyddogaeth ecolegol. Yn yr achosion hyn, rhaid i chi dorri dim mwy na 25% o goed â nodweddion clwydo posibl (yn ddelfrydol y rhai â'r potensial isaf) mewn unrhyw gyfnod o ddeg mlynedd.
- 3. Clwydfannau mamolaeth neu glwydfannau gaeafgysgu wedi'u cofnodi neu eu cadarnhau ar gyfer yr ystum pedol mwyaf, yr ystum pedol lleiaf neu'r ystum du**
- Yn ogystal â chymhwyso'r mesurau ar gyfer clwydfannau hysbys neu dybiedig, dim ond **gyda chyngor arbenigol** y dylid torri coed o fewn 250 metr i'r clwydfannau hyn. Os oes cofnod o glwydfan o'r fath ac rydych chi'n gwneud cais am drwydded cwmpo coed, mae'n debyg yr ymdrinnir â hyn trwy amodau amgylcheddol pwrpasol. Mewn achosion eraill, bydd angen i chi geisio cyngor penodol gan ecolegydd cymwys.

Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefinoedd i ystumod

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i ystumod, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

1. Cynnal maint a chyfanrwydd y coetir

Mae gwarchod maint cyffredinol y coetir yn hanfodol i sawl rhywogaeth o ystumod, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar ardaloedd mawr, heb eu haflonyddu ar gyfer clwydo a fforio.

2. Gwellu cynefinoedd ymylol

Gwellwch ffiniau coetiroedd, rhodfeydd, llennyrch a manau agored drwy hyrwyddo strwythur llystyfiant amrywiol – o brysgwydd a glaswellt tal i blanhigion llysieuol a glaswellt byr. Mae canghennau sy'n crogi drosodd a llystyfiant haenog yn cynnal amrywiaeth o bryfed, gan greu tiroedd fforio cyfoethog ar gyfer rhywogaethau ystumod sy'n gyffredinolwyr.

3. Sicrhau cysylltedd cynefinoedd

Cadwch lleiniau o goed i gynnal cysylltedd tirwedd a rhwng blociau coetir i osgoi darnio. Mae coridorau fel gwrychoedd, coedlinau a sribedi torlannol coediog yn hanfodol i ystumod, sy'n dibynnu ar dirweddau cysylltiedig i symud yn ddiogel a chael mynediad i adnoddau.

4. Gwellu strwythur is-dyfiant

Mae is-dyfiant datblygedig gyda rhywogaethau planhigion amrywiol yn darparu lloches, yn cynnal ysglyfaethwyr pryfed, ac yn cyfrannu at gymhlethdod cyffredinol y cynefin, gan fod o fudd i ystlumod sy'n clwydo ac yn fforio.

5. Cadw prennau marw a choed hynod

Mae prennau marw sy'n sefyll ac sydd wedi cwmpo, yn ogystal â hen goed â cheudodau, yn hanfodol ar gyfer clwydo. Mae'r nodweddion hyn hefyd yn cynnal ystod eang o infertebratau, gan wella argaeledd bwyd i ystlumod.

Beth i'w wneud os byddwch chi'n dod o hyd i dystiolaeth o glwydfan ystlumod yn annisgwyl yn ystod gwaith

Unwaith y bydd hi'n ddiogel gwneud hynny, stopiwch unrhyw waith a allai achosi mwy o ddifrod neu aflonyddwch. Os nad yw wedi'i ddifrodi, dylech wirio y gallwch ddilyn y dull ar gyfer clwydfan hysbys yn yr adran mesurau ataliol uchod cyn ailgychwyn y gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, neu os yw'r clwydfan wedi'i ddifrodi, dylech geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Os yw coeden sydd wedi'i thorri yn ymddangos fel pe bai'n cynnwys clwydfan, gwnewch yn siŵr bod y goeden (neu'r rhan ohoni) yn gorwedd fel nad yw mynedfa'r clwydfan wedi'i rhwystro a gall unrhyw ystlumod sydd heb eu hanafu ddianc. Os canfyddir ystlumod sydd wedi'u hanafu, dylid eu symud yn ofalus i leoliad diogel (e.e. blwch diogel gyda holltau bach ar gyfer awyru). Dylech ffonio [Llinell Gymorth Ystlumod Genedlaethol yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ar 0345 1300 228](tel:03451300228) i gael rhagor o gyngor. Os oes gennych ecolegydd cymwys ar y safle, efallai y bydd yn gallu helpu. Efallai y bydd yn eich cynghori i fynd â'r ystlum i bractis milfeddygol neu weithiwr ystlumod i'w adsefydlu. Dylech hefyd hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r Hwb Cwsmeriaid cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Os oes angen trin ystlum, gwisgwch fenig neu rhowch frethyn dros yr ystlum i leihau'r risg o frathiad neu grafiad, oherwydd y risg fach, ond bosibl, o lysafeirws ystlumod Ewropeaidd (math o'r gynddaredd).

Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer ystlumod yma:

[Rhywogaethau gwarchoddedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru](#) – sut i arolygu eich coetir am rywogaethau a warchodir.

[Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: Bats and Woodland](#) – canllaw cynhwysfawr i reoli ystlumod a choetiroedd.

[Woodland Management for Bats](#) (2005), a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Lloegr mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac English Nature (Natural England).

[Bat Surveys for Professional Ecologists: Good Practice Guidelines, pedwerydd argraffiad – canllawiau i weithwyr proffesiynol – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod.](#) Canllawiau cenedlaethol ar sut i gynnal arolygon o ystlumod.

[Bat Roosts in Trees – Pelagic Publishing – Bat Tree Habitat Key – Henry Andrews.](#) Llyfr manwl i'w brynu os hoffech chi ddysgu mwy am gynefinoedd clwydo ystlumod mewn coed.